


ASTUDIAETH ACHOS – Sgiliau Digidol i Bawb

Sut mae'r diwydiant adeiladu yn wynebu her y 4ydd chwyldro diwydiannol ac yn arfogi'r gweithlu presennol ac i'r dyfodol gyda sgiliau Digidol?

'Rydym wedi gweld datblygiadau sylweddol mewn technolegau digidol o fewn y gwaith adeiladu dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi cyflwyno cyfleoedd sylweddol i wella cynhyrchiant, iechyd a diogelwch y sector, cydweithio, a datgarboneiddio. Mae'n hanfodol bod sgiliau gweithwyr adeiladu yn cyd-fynd â'r datblygiadau hyn i sicrhau ein bod yn manteisio'n llawn ar y cyfleoedd.'

Ifan Glynn, Uwch Gyfarwyddwr Hwb/Cyfarwyddwr Cymru, Ffederasiwn y Meistr-adeiladwyr



Trosolwg

Mae CITB mewn partneriaeth â chyflogwyr o'r sector adeiladu wedi datblygu fframwaith o gymwyseddau digidol a fydd yn cael eu defnyddio i helpu pobl sy'n dod i mewn i'r diwydiant neu weithio yn y diwydiant i fod yn fwy medrus yn ddigidol. Mae cyflogwyr yn y sector wedi cydnabod y bydd gwell sgiliau digidol yn cynyddu cynhyrchiant, effeithiolrwydd ac yn galluogi unigolion i symud yn hawdd i wahanol brosiectau a rolau yn y maes adeiladu.

CITB yw corff sgiliau'r diwydiant sy'n gydnabyddedig gan y Llywodraeth ar gyfer y sector adeiladu yn Lloegr, yr Alban, a Chymru. Eu rôl nhw yw helpu'r diwydiant adeiladu i ddenu talent ac i gefnogi datblygu sgiliau ar gyfer adeiladu Prydain well. Mae CITB yn casglu ardoll o'r diwydiant ac yn buddsoddi'r ardoll mewn hyfforddiant a chynhyrchion ac atebion hyfforddi, prentisiaethau, ymchwil, a gweithgareddau polisi.

Yn y flwyddyn ariannol 2020/2021, buddsoddodd CITB £94.5m yn y sector adeiladu i gefnogi prentisiaethau, cyflawniadau cymhwyster a hyfforddiant ar gyfer cyflogwyr o bob math a maint.

Beth fydd chwyldro diwydiannol yn ei olygu i'r maes adeiladu?

Mae arwyddion o newid eisoes yn dod i'r amlwg yn y sector, yn enwedig o ran technolegau digidol. Mae offer megis drônau, cerbydau ymreolaethol, argraffwyr 3D a pheiriannau gosod brics robotig, ystod eang o ddeunyddiau ac arferion newydd fel adeiladu oddi ar y safle ar gael yn rhwydd. Mae'r trawsnewidiad hwn yn cynnig cyfle am gynnydd sylweddol mewn lefelau cynhyrchiant a phroffidioldeb o fewn diwydiant y disgwylir iddo dreblu mewn maint yn y blynyddoedd hyd at 2030.

Ond er mwyn cyflawni'r twf sylweddol hwn, bydd angen i'r gweithlu'r presennol a'r dyfodol fod yn fedrus i ddefnyddio'r technolegau trawsnewidiol gwahanol hyn.

Mae'n bwysig nodi bod i sgiliau digidol werth ar draws economi'r DU wrth i bob diwydiant ddechrau harneisio manteision technoleg i wella perfformiad busnes. A bydd gan unigolion sydd â sgiliau digidol sgiliau trosglwyddadwy ac felly hirhoedledd yn y sector a'r farchnad lafur.

Beth sydd ei angen ar gyflogwyr adeiladu?

Gofynnodd arolwg diweddar a wnaed gan CITB, i gyflogwyr pa sgiliau digidol sydd bwysicaf. Dyma'r ymateb:

- Dangos dealltwriaeth sylfaenol o'r defnydd o ddata
- Deall y bygythiadau mwyaf cyffredin a photensial eraill, yn ogystal â ffyrdd o liniaru risgiau
- Deall a chydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol, megis rheoliadau GDPR
- Defnyddio caledwedd cysylltiedig, megis sbectol, clustffonau, drônau, a chamêrâu
- Defnyddio gliniaduron a systemau gweithredu penodol fel Windows a Linux
- Darparu a/ neu ddefnyddio peiriannau wedi'u hawtomeiddio gyda chyfarwyddiadau
- Deall offer ar gyfer cynhyrchu data
- Cysylltu â'r rhwydwaith lleol ar ddyfais a chael mynediad at wybodaeth sydd wedi'i storio o bell
- Dal delweddau a golygfeydd o ansawdd uchel o dir a safleoedd gan ddefnyddio offer penodol.



“Ers blynddoedd lawer, rydym wedi cydnabod pwysigrwydd sgiliau digidol i'r rhai sy'n gweithio ar bob lefel, yn y sector peirianeg sifil. Mae'r gallu i weithredu mewn amgylchedd digidol yn hanfodol ar gyfer gwella cyfathrebu rhwng ein pobl, gan wneud ein gweithrediadau'n fwy effeithiol ac effeithlon a sicrhau mai ein darpariaeth dechnegol yw'r gorau y gall fod. Mae chwyldro'n digwydd yn ein diwydiant yn y ffordd y mae'n cyflawni - mae technolegau digidol yn sail i hyn ac mae ein pobl yn cofleidio'r newid hwn.”

Ed Evans, Cyfarwyddwr Cymru, Cymdeithas Contractwyr Peirianeg Sifil

Mae'n amlwg o'r ymatebion i'r arolwg, bod gan gyflogwyr bryderon penodol ynghylch llythrennedd TG cyffredinol a thrin data sy'n gyffredin ar draws economi'r DU. Ond hefyd, mae cyflogwyr adeiladu angen sgiliau digidol sy'n benodol i'r sector i weithredu caledwedd adeiladu a meddalwedd a ddefnyddir er enghraifft mewn dylunio adeiladu.

Trwy ddeall beth yn union sydd ei angen ar gyflogwyr o ran sgiliau digidol, mae CITB ar y cyd â'r sector wedi gallu creu ateb.

Beth sy'n cael ei wneud i fynd i'r afael â'r heriau hyn?



Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol - a ddangosir isod

Er mwyn hwyluso a galluogi'r sector adeiladu i ennill y sgiliau pwysig hyn, mae CITB wedi datblygu fframwaith cymhwysedd sy'n cynnwys y cymhwyseddau, yr wybodaeth a'r ymddygiadau digidol a nodwyd fel y rhai pwysicaf gan gyflogwyr.

Gellir defnyddio'r fframwaith cymhwysedd fel man cychwyn defnyddiol i gwmnïau fapio sgiliau eu gweithlu presennol, nodi pa sgiliau digidol y mae gwahanol garfanau o aelodau staff eu hangen ac yn tynnu sylw at unrhyw fylchau.

Mae CITB hefyd wedi mynd ymlaen i adnabod dulliau posibl o'u defnyddio. Er enghraifft:


- Ffurio is-grŵp datblygu i nodi pa sgiliau TG y mae gwahanol garfanau eu hangen ar gyfer y cwmni yn seiliedig ar y grid cymhwysedd
- Blaenoriaethu'r hyfforddiant a nodwyd sy'n gysylltiedig ag angen y busnes
- Nodi hyfforddiant sydd eisoes yn cael ei gynnig drwy safonau hyfforddi

a gymeradwywyd gan CITB sy'n cyfateb i'r angen a nodwyd, ac argaeledd Sefydliadau Hyfforddiant Cymeradwy (ATOs)

- Nodi datblygiad hyfforddiant/sgiliau nad yw'n cael ei gynnig gan safonau hyfforddi cymeradwy CITB a nodi darparwyr allanol neu fewnol
- Datblygu rhaglen hyfforddi bwrpasol y cwmni yn erbyn anghenion penodol a nodwyd trwy'r fframwaith a ddarperir naill ai gan sefydliadau hyfforddi allanol neu'n fewnol os oes gallu i wneud hynny yn bodoli.

Bydd y Fframwaith Cymhwysedd Digidol nawr yn caniatáu i CITB nodi a oes unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol (NOS) eisoes yn bodoli fel sail i ddatblygu hyfforddiant a dysgu priodol gan gynnwys cymwysterau. Trwy gael set gyffredin o NOS ar gael yn rhwydd ar gyfer sgiliau digidol y gellid eu defnyddio gan lawer o wahanol sectorau diwydiant, bydd trosglwyddo sgiliau a symudedd llafur yn cael ei gynyddu ac yn gwneud recriwtio a chadw yn llawer haws.

Yn ogystal, mae City and Guilds yn datblygu cymhwyster i achredu'r sgiliau digidol a nodwyd yn y fframwaith cymhwysedd. O fis Medi 2022, bydd angen i holl brentisiaid y prif gefftau adeiladu yng Nghymru gyflawni'r cymhwyster hwn er mwyn llwyddo yn eu dyfarniad prentisiaeth llawn.



Casgliad

Mae Grŵp Llywodraethu NOS, gyda chynrychiolaeth o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi amlygu pwysigrwydd sgiliau trosglwyddadwy yn y strategaeth newydd ar gyfer NOS 2022 a thu hwnt.

Cenhadaeth y Strategaeth ar gyfer NOS

'I symleiddio a gwella mynediad at NOS, cynnig cysylltiadau ar draws y tirwedd sgiliau a chefnogi'r cysyniad o ddysgu gydol oes drwy alluogi unigolion i ennill y sgiliau trosglwyddadwy sydd fwyaf hanfodol i economi'r dyfodol.'

Mae Grŵp Llywodraethu NOS yn falch o allu arddangos y gwaith sy'n cael ei wneud gan CITB a'r sector adeiladu i helpu i wireddu'r daith a amlinellir uchod ac edrych ymlaen at weld canlyniadau'r prosiect cyffrous hwn.

Am ragor o wybodaeth am Fframwaith Cymhwysedd Digidol Adeiladu, cysylltwch â gareth.williams@citb.co.uk

Am wybodaeth ynglŷn â NOS a'r Strategaeth ar gyfer NOS 2022 a thu hwnt, ewch i www.ukstandards.org.uk

